Y Gwasanaeth Ymchwil Research Service

# Papur briffio ynghylch deiseb

## Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

**Rhif y ddeiseb**: P-04-685

**Teitl y ddeiseb**: Cynllun y Taliad Sylfaenol yng Nghymru

**Testun y ddeiseb:** Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ailystyried ei phenderfyniad i osod model cyfradd wastad ar gyfer talu cymhorthdal Cynllun y Taliad Sylfaenol i ffermwyr Cymru. Grant yr Undeb Ewropeaidd i helpu'r diwydiant ffermio yw Cynllun y Taliad Sengl. Gall ffermwyr wneud cais am y grant unwaith y flwyddyn - ym mis Mai fel arfer - ac mae'r taliadau'n dechrau ym mis Rhagfyr. Ym mis Gorffennaf 2015, gwnaeth Llywodraeth Cymru y penderfyniad i ddechrau talu ar gyfradd wastad fesul hectar i holl ffermwyr Cymru o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol. O ganlyniad i'r penderfyniad hwn, amcangyfrifir y bydd 1,323 o ffermydd yn colli mwy na €2,500, a bydd taliadau llawer ohonynt yn gostwng tua 40-60% dros gyfnod o bum mlynedd. Bydd y taliadau a gollir yn dod i €100,000 fesul fferm, bob blwyddyn o nawr tan 2019. Bydd y model taliad cyfradd wastad i holl ffermwyr Cymru yn arwain at ddiweithdra a methiant busnesau. Bydd hyn hefyd yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd ac ar ansawdd a maint cynnyrch bwyd o Gymru, oherwydd y bydd yr effaith waethaf ar ffermydd cynhyrchiol. Ceir gwahaniaethau sylweddol yng nghynhyrchiant tir ffermio yng Nghymru. Felly, mae'n hollbwysig bod Cynllun y Taliad Sylfaenol yn cael ei droi'n rhanbarthol. Bydd y penderfyniad hefyd yn rhoi ffermwyr cynhyrchiol yng Nghymru o dan anfantais o gymharu â ffermwyr cyfatebol mewn gwledydd eraill; er enghraifft, mae ffermwyr yn Lloegr yn derbyn taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol ar sail ranbarthol. Mae'n amlwg er budd gorau'r gymuned ffermio a Chymru'n ehangach i sicrhau bod cynllun taliad tecach ar waith.

## Cefndir

### Crynodeb

Cynllun y Taliad Sylfaenol yw enw'r cynllun a ddefnyddir i roi taliadau cymhorthdal incwm uniongyrchol i ffermwyr o dan Golofn 1 y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Mae'r cynllun yn cael ei reoli gan reoliadau'r UE, ond mae gan Aelod-wladwriaethau a Rhanbarthau'r UE, yn achos Cymru, rywfaint o ddisgresiwn i benderfynu sut y caiff y taliadau hyn eu dyrannu.

Yng Nghymru, mae'r ffermwyr sy'n gymwys yn cyflwyno ceisiadau bob blwyddyn i gael y taliad. Caiff y taliadau eu dyrannu yn dibynnu ar sawl ffactor.

### Y rheolau ynghylch rhoi taliadau

Mae'n ofynnol i bob llywodraeth ddilyn rhai rheolau sylfaenol sy'n berthnasol ledled yr UE wrth gynllunio eu systemau ar gyfer rhoi'r taliadau i'r ffermwyr. O dan gylch presennol y Polisi Amaethyddol Cyffredin (2014-2020), mae'n ofynnol i wledydd a oedd yn arfer defnyddio'r 'dull hanesyddol' ar gyfer dyrannu taliadau i ffermwyr symud tuag at ddull 'ar sail arwynebedd'.

Yn unol â'r dull hanesyddol, mae swm y taliad uniongyrchol a roddir i'r ffermwr yn dibynnu ar faint a gynhyrchwyd ganddo yn ystod cyfnod cyfeirio (er enghraifft, 2000-2002). Mae system ar sail arwynebedd yn dosbarthu taliadau uniongyrchol i ffermwyr yn unol â faint o dir maent yn ei ffermio, ni waeth faint oedd yn arfer cael ei gynhyrchu ar y tir hwnnw.

Er ei bod yn ofynnol i lywodraethau symud tuag at ddyrannu taliadau ar sail arwynebedd erbyn 2019, mae'r rheolau'n hyblyg o ran sut ac erbyn pryd y dylai llywodraethau wneud hynny. Gall Aelod-wladwriaethau a Rhanbarthau ddewis:

- newid yn llwyr i daliadau ar sail arwynebedd yn 2015;
- cwblhau'r broses o newid i daliadau ar sail arwynebedd yn llwyr erbyn 2019;
- symud yn rhannol i daliadau ar sail arwynebedd yn 2019 cyhyd â bod y meini prawf sylfaenol yn cael eu bodloni;
- sefydlu un rhanbarth talu ar gyfer y diriogaeth gyfan; neu
- sefydlu rhanbarthau talu ar wahân ar yr amod eu bod wedi'u seilio ar feini prawf gwrthrychol ac anwahaniaethol.

Ni waeth pa system a ddewisir, bydd newid o daliadau hanesyddol i rai ar sail arwynebedd yn arwain at newid y symiau a roddir i wahanol ffermwyr.

## Camau Gweithredu Llywodraeth Cymru

### Penderfyniad Cychwynnol Llywodraeth Cymru

Yn dilyn cyfres o ymgynghoriadau penderfyniad cychwynnol Llywodraeth Cymru oedd cwblhau'r broses o newid i daliadau ar sail arwynebedd erbyn 2019 a defnyddio'r opsiwn i dalu symiau gwahanol i ranbarthau gwahanol yng Nghymru. Dyma'r tri math o ranbarth:

- rhostir – amcangyfrifir mai €20 fesul hectar fyddai'r taliad;

- ardaloedd eraill o dan anfantais fawr – amcangyfrifir mai €200 fesul hectar fyddai'r taliad;
- pob math arall o dir (tir isel ac ardaloedd o dan anfantais) – amcangyfrifir mai €240 fesul hectar fyddai'r taliad.

Y diffiniad o rostir oedd tir a ddosbarthwyd yn rhostir ar Fap Rhostir Cymru 1992, sydd ar uchder o 400 metr o leiaf a lle y ceir llystyfiant rhostir.

**Yr her gyfreithiol**

Ym mis Rhagfyr 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n tynnu ei chynigion cyntaf ar gyfer system dalu ranbarthol yn ôl o ganlyniad i her gyfreithiol. Gwnaed yr her gyfreithiol gan grŵp o ffermwyr, 'Tegwch i'r Ucheldir', a oedd o'r farn bod y categori Rhostir arfaethedig yn annheg. Byddai gan rai darnau o dir a oedd yn is na'r llinell 400 metr yr un nodweddion â thir a oedd yn uwch na'r llinell 400 metr, ond byddent yn cael lefel wahanol o daliad o gymharu â'r categori Rhostir. Penderfynwyd nad oedd y categori wedi'i seilio ar feini prawf gwrthrychol ac anwahaniaethol fel sy'n ofynnol gan reolau'r UE. Felly, cytunodd Llywodraeth Cymru y dylai'r Llys lunio Gorchymyn Caniatâd yn dirymu'r rheoliadau a ddefnyddiwyd i gyflwyno'r model talu rhanbarthol.

**Y system dalu bresennol**

Yn dilyn yr her gyfreithiol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad newydd ar opsiynau posibl ym mis Mawrth 2015. Roedd yr ymgynghoriad yn ystyried canlyniadau'r adolygiad barnwrol. Roedd yr opsiynau hyn yn cynnwys:

- cadw model talu rhanbarthol, ond un wedi'i seilio ar feini prawf gwahanol;
- symud i gyfradd safonol, lle telir yr un gyfradd i bob ffermwr yng Nghymru ni waeth ble y mae'n ffermio, a gwneud hynny ar unwaith yn 2015;
- symud i gyfradd safonol mewn camau graddol rhwng 2015 a 2019;
- symud yn rhannol i gyfradd safonol erbyn 2019 (neu 'tunnelling' yn Saesneg); a
- defnyddio un o'r opsiynau uchod ynghyd â rhai opsiynau ychwanegol i liniaru rhai o'r enillion a cholledion mwyaf i ffermwyr unigol.

Er bod y ddogfen ymgynghori yn cynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio model talu rhanbarthol newydd, nododd Llywodraeth Cymru fod yr her gyfreithiol lwyddiannus i'w chynnig cyntaf yn dangos nad oedd ei gwybodaeth a'i mapiau ynghylch mathau o dir yng Nghymru yn ddigon manwl i sicrhau na ellid herio unrhyw gynigion eraill ar gyfer rhanbarthau yn y dyfodol yn yr un ffordd. Nododd Llywodraeth Cymru y byddai angen cynnal ymarfer i fapio Cymru yn ei chyfanrwydd o'r newydd. Mewn llythyr i Aelodau'r Cynulliad ynglŷn â'r posibilrwydd o gynnal ymarfer mapio, dyddiedig 16 Mehefin 2015, dywedodd y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd y gallai ymarfer mapio ar y lefel hon olygu cost o 'ddegau o filiynau o bunnau a gwaith fyddai'n para nifer o flynyddoedd' ac felly nid oedd o'r farn y byddai hynny'n opsiwn ar gyfer y cylch hwn o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganlyniad yr ail ymgynghoriad hwn ym mis Gorffennaf 2015. Mae wedi dewis model talu lle telir 'cyfradd safonol' i bob ffermwr, ond gan symud tuag at hyn mewn camau graddol hyd at 2019. At hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi dewis un o'r opsiynau ychwanegol i geisio lliniaru rhai o effeithiau'r newid hwn o ran ailddosbarthu'r adnoddau. Yr opsiwn ychwanegol a ddewiswyd yw'r opsiwn i ddefnyddio 'taliad ailddosbarthu', lle caiff ffermwyr daliad ychwanegol am y 54 hectar cyntaf o dir sydd ganddynt. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd defnyddio'r opsiwn ychwanegol hwn yn tarfu llai ar y sefyllfa, o safbwynt ariannol, o gymharu â symud i'r opsiwn o gael cyfradd safonol yn unig erbyn 2019.

Roedd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn cynnwys tablau a oedd yn rhoi rhagolwg o'r newidiadau i'r taliadau blynyddol y byddai ffermwyr yn eu cael o dan yr opsiynau gwahanol. Roedd Tabl 4 yn dangos yr opsiwn a ffafriwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer newid y taliadau i ffermwyr.

**Rhagolwg o'r newidiadau i'r taliadau blynyddol ar gyfer hawlwyr o dan yr opsiwn taliadau ailddosbarthu**

| **Newid blynyddol €** | **Nifer yr hawlwyr** |
|---|---:|
| Colled o 2,500 o leiaf | 1,323 |
| Colled o 2,000 i 2,500 | 324 |
| Colled o 1,500 i 2,000 | 453 |
| Colled o 1,000 i 1,500 | 625 |
| Colled o 500 i 1,000 | 860 |
| Colled o lai na 500 | 1,878 |
| Hyd at 500 yn fwy | 5,051 |
| 500 i 1,000 yn fwy | 2,560 |
| 1,000 i 1,500 yn fwy | 1,383 |
| 1,500 i 2,000 yn fwy | 807 |
| 2,000 i 2,500 yn fwy | 374 |
| O leiaf 2,500 yn fwy | 712 |
| **Cyfanswm** | **16,350** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Mawrth 2015

## Modelau eraill yn y DU

Mae Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill wedi dewis systemau talu gwahanol er mwyn adlewyrchu'r mathau gwahanol o fusnesau ffermio, y mathau gwahanol o dir a'r dulliau gwahanol o dalu yn y gorffennol yn y gwahanol wledydd. Mae ffermwyr yn Lloegr wedi cael eu talu ar sail arwynebedd ers 2012. Mae tri rhanbarth talu yn Lloegr: iseldir; tir mewn ardaloedd o dan anfantais fawr nad yw'n rhostir; ac ardaloedd rhostir o dan anfantais fawr. Mae Gogledd Iwerddon wedi dewis trosglwyddo i daliadau ar sail arwynebedd dros gyfnod o saith mlynedd gyda'r nod o symud tuag at daliadau ar sail arwynebedd erbyn 2021. Telir pob ffermwr yng Ngogledd Iwerddon ar sail cyfradd safonol. Bydd yr Alban yn symud i daliadau ar sail arwynebedd mewn camau graddol erbyn 2019. Mae tri rhanbarth talu yn yr Alban: tir o safon uwch; ardaloedd llai ffafriol â thir pori o safon uchel; ac ardaloedd llai ffafriol â thir pori o safon isel.

Nid oes yr un system dalu arall wedi bod yn destun her gyfreithiol.

## Camau gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Sefydlodd Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Pedwerydd Cynulliad grŵp gorchwyl a gorffen ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin, a fu'n trafod taliadau a systemau talu. Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn frys ym mis Chwefror 2015 yn dilyn canlyniad yr her gyfreithiol, a bu'n trafod y goblygiadau gyda rhanddeiliaid mewn trafodaeth arbennig ynghylch amaethyddiaeth ar 30 Ebrill 2015. Cafodd y mater ei drafod mewn sawl sesiwn graffu gyffredinol a gynhaliodd y Pwyllgor gyda'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd ar y pryd, gan gynnwys sesiynau ar 4 Mawrth 2015 a 20 Mai 2015.

Gwnaeth y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd ddatganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn ynghylch canlyniadau'r ymgynghoriad ar 7 Gorffennaf 2015 lle gofynnodd Aelodau'r Cynulliad lawer o gwestiynau i'r Dirprwy Weinidog. Mae cwestiynau ynglŷn â'r mater hwn wedi cael eu gofyn i'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Weinidog yn y Cyfarfod Llawn.